Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

13 Mawrth 2018

Annwyl Ms Neagle,

**Argaeledd gwerslyfrau :**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Chwefror ynghylch argaeledd gwerslyfrau.

Gall CBAC fel corff dyfarnu hybu diddordeb cyhoeddwyr o ran darparu gwerslyfrau, gallwn ddarparu cyngor o ran agweddau ar gynnwys ac asesiad a gallwn ddarparu “cymeradwyaeth“ ar gyfer gwerslyfrau sy’n addas ar gyfer cymhwyster. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros raglen waith cyhoeddwr na thros yr amserlen ar gyfer eu cynnyrch.

Yn gyffredinol, y ffactor pennaf sy’n creu rhwystr i gyhoeddwyr o ran eu hamserlen ar gyfer gyrru ymlaen gyda’u gwaith yw’r amserlen reoleiddiol ar gyfer cymeradwyo cymwysterau, yn benodol faint o amser sydd ar gael cyn y dyddiad pryd y dechreuir dysgu. Mae hyn wedi bod yn faen tramgwydd ar gyfer nifer o bynciau o fewn yr amserlen diwygio a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod rhan olaf y cyfnod pan oedd yn rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru (ac roedd yr amserlen honno yn debyg iawn i’r un ar gyfer diwygio cymwysterau yn Lloegr). Fodd bynnag, o ran gwerslyfrau TGAU a Safon Uwch ar gyfer Astudiaethau Crefyddol, mae’n ymddangos bod ffactorau ychwanegol wedi cael effaith ar y ddau gyhoeddwr oedd yn gwneud y gwaith hwn.

Fel rhan o’n cefnogaeth i’n cymwysterau, mae CBAC yn buddsoddi yn sylweddol mewn adnoddau digidol ar gyfer dysgu ac addysgu, gan eu darparu yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr. Yn eu plith mae dogfen “canllaw dysgu” sylweddol ac amrediad o adnoddau digidol i gefnogi’r dysgu, gyda phwyslais penodol ar rannau o’r cymhwyster sydd wedi newid ers y fersiwn flaenorol. Mae Astudiaethau Crefyddol TGAU a TAG yn digwydd bod ymhlith y cymwysterau hynny lle rydym wedi datblygu amrediad eang o adnoddau digidol newydd.

Ar gyfer rhai cymwysterau rydym yn methu ennyn diddordeb unrhyw gyhoeddwr gwerslyfrau, fel arfer oherwydd y niferoedd bychain sy’n dilyn y cymhwyster neu oherwydd natur y dysgu. Yn yr achosion hynny, bydd adnoddau digidol a gynhyrchir gan CBAC yn bwysicach fyth, fel sydd wedi digwydd ar gyfer cymwysterau diwygiedig ar gyfer Dylunio a Thechnoleg ac Electroneg (ar gyfer y cyntaf o’r rhain, derbyniwyd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru).

Ar cyfan, mae amrediad rhesymol o werslyfrau ar gael trwy ddarpariaeth fasnachol ar gyfer cymwysterau TGAU a TAG diwygiedig yng Nghymru, ond mae’n anarferol iawn canfod ar gyfer unrhyw bwnc ddewis o gynnyrch gan fwy nag un cyhoeddwr. Y prif bryder yw’r

amserlen ar gyfer eu cynhyrchu a'r bwlch amser rhwng darpariaeth fersiynau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Gan edrych tua'r dyfodol, fodd bynnag, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd y farchnad fasnachol fel y mae ar hyn o bryd yn gallu ateb anghenion rhaglenni dysgu sy'n seiliedig ar gwricwlwm sy'n datblygu i fod yn fwy penodol ar gyfer Cymru.

Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae dysgwyr wedi cael eu siomi o ran argaeledd gwerslyfrau, nid ydym fel arfer yn canfod bod ganddyn nhw bryderon o ran y canlyniadau maen nhw yn llwyddo i'w cyrraedd yn ddiweddarach yn eu hasesiadau. Credwn bod hyn yn digwydd oherwydd yr amrediad o adnoddau eraill sydd ar gael, gan gynnwys rhai sydd wedi eu teilwra gan athrawon a darlithwyr ar gyfer eu dosbarthiadau.

Pe byddai'r Pwyllgor yn ystyried y gallai hynny fod yn ddefnyddiol, byddai CBAC yn hapus iawn i ddarparu gwybodaeth bellach trwy drafodaeth a chyflwyniad ar faterion sy'n berthnasol i'r drefniadaeth bresennol a'r dyfodol.

Yn gywir,

**Gareth Pierce**
Prif Weithredwr / *Chief Executive*
CBAC / *WJEC*

cc  Philip Blaker, Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru